

Canllaw Codi Arian i Fyfyrwyr





Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Rhagarweiniad | 4 |
| Byd codi arian 5 | |
| Beth yw codi arian? | 5 |
| Byd codi arian myfyrwyr 6 | |
| Treftadaeth codi arian myfyrwyr | 6 |
| Cymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr | 7 |
| Beth yw nodweddion rhywun sy'n dda am godi arian? | 8 |
| Y gyfraith a rheoliadau 9 | |
| Rheoleiddio codi arian | 9 |
| Y Cod Ymarfer ar gyfer Codi Arian | 9 |
| Egwyddorion ar gyfer codi arian rhagorol | 9 |
| Ymdrin â rhoddion yn ofalus a diogel | 10 |
| Anrhydeddu eich addewidion i gefnogwyr | 10 |
| Cymryd cyfrifoldeb dros eich gweithgareddau codi arian | 10 |
| Trin y cyhoedd yn deg a chyda pharch | 11 |
| Bod yn glir ac yn onest | 11 |
| Cyfraith elusennau ac undebau myfyrwyr | 11 |
| Yswiriant a chodi arian myfyrwyr | 13 |
| Cyfanswm Cenedlaethol Codi Arian Myfyrwyr | 14 |

Parhad drosodd



Cynnwys, *parhad*

Gweithgareddau sylfaenol codi arian myfyrwyr 15

Ffawdheglu 15

'Cyrchoedd' 15

Heriau 16

Wythnos RAG 16

Hyfforddi a datblygu ar gyfer codi arian 18

Cynhadledd Genedlaethol Codi Arian Myfyrwyr..... 18

Gwefan Cymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr 18

Y Sefydliad Codi Arian 19

Aelodaeth19

Hyfforddiant.....19

Cynhadledd 20

Y tu hwnt i godi arian myfyrwyr - Gyrfaoedd yn y sector elusennol 21

Dod o hyd i rôl i chi 21

Cofnodi beth rydych chi wedi'i wneud 22


Cysylltiadau 23

UCM 23

Cymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr23

Y Sefydliad Codi Arian 23

Diolch 24



Rhagarweiniad

Cynhyrchwyd y Canllaw Codi Arian Myfyrwyr gan UCM gyda Chymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr (CGAGM), y Sefydliad Codi Arian (SCA) ac Endsleigh. Fe'i cynlluniwyd i fod o gymorth i fyfyrwyr sy'n codi arian a'r undebau'r myfyrwyr y maent yn gweithio gyda nhw, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau y gallwn ni ym myd codi arian myfyrwyr.

Gobeithio y bydd yr arweiniad yn ateb rhai o'r cwestiynau anodd hynny ynghylch cydymffurfio a materion cyfreithiol; rydym wedi tynnu sylw at yr hyn sy'n gwneud codwr arian da, a byddai'n wych gweld undebau'r myfyrwyr yn datblygu'r myfyrwyr hynny sy'n mynd ati i godi arian gan ddilyn y canllawiau hyn gan y Sefydliad Codi Arian.

Bydd hyn yn sicrhau ansawdd ein digwyddiadau codi arian ac yn rhoi sicrwydd i chi eich bod chi'n dilyn arferion da.

Byd Codi Arian


Beth yw codi arian?

- Codi arian yw'r ffordd y mae elusennau'n gofyn am roddion neu gymorth ariannol gan y cyhoedd, busnesau, llywodraeth, sefydliadau ac eraill.
- I fod yn gynaliadwy, bydd rhaglen codi arian elusen yn canolbwyntio ar ddatblygu perthynas gadarnhaol, gynaliadwy a pharchus gyda chefnogwyr.
- Does mo'r fath beth ag un dull penodol o godi arian. Bydd llwyddiant wrth godi arian yn dibynnu ar genhadaeth, nodau a gofynion cyllido'r mudiad, yn ogystal â'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i chi.
- Codi arian yw'r ffordd fwyaf amlwg y mae pobl yn clywed am waith elusennau a mynd ati i gyfranogi - mae'n gyswllt a all ddod â phobl yn nes at yr achosion hynny sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, codi ymwybyddiaeth, ac annog cefnogaeth bellach fel gwirfoddoli.

Effaith codi arian

Mae gwaith a wneir gan y rheiny sy'n codi arian yn hanfodol, nid yn unig drwy godi'r arian sy'n galluogi elusennau i wneud eu gwaith, ond hefyd o ran sicrhau bod pobl yn cael profiad cadarnhaol ac ysbrydoledig o godi arian a rhoi. Cynhaliodd y Sefydliad Codi Arian ymchwil gyda YouGov a darganfod y canlynol:

- Dywedodd 60 y cant o bobl eu bod wedi cymryd camau cadarnhaol ychwanegol (megis gwirfoddoli neu arwyddo deiseb) o ganlyniad i roddi i elusen;
- Roedd 24 y cant o'r rhai a roddodd bellach yn rhoi'n rheolaidd i elusennau;
- Dywedodd 43 y cant o bobl eu bod wedi newid eu hymddygiad neu'n teimlo'n fwy positif o ganlyniad i roi yn y gorffennol.



Byd Codi Arian Myfyrwyr

Treftadaeth codi arian myfyrwyr

Codi arian oedd un o'r gweithgareddau cynharaf a drefnwyd gan fyfyrwyr yn y DU. Roedd yn digwydd cyn bodolaeth undebau myfyrwyr, a chyn i gymdeithasau a chlybiau chwaraeon ddod yn agwedd sefydledig o fywyd prifysgolion a cholegau. Mae cymdeithasau RAG wedi bod o gwmpas ers yr 1800au ac mae eu gweithgareddau unigryw, hwyliog ac anghyffredin bob amser wedi'u diffinio. Mae ffilm y bodoli o gystadlaethau '*tiddlywinks*' codi arian RAG ar Oxford Street yn y 1960au, gemau rygbi comedi yn y 1920au a nifer o enghreifftiau o orymdeithiau, gwisg ffansi ac ambell garnifal dros y blynyddoedd. Mewn gwirionedd, mae'r teimlad o garnifal yn rhan annatod o RAG fel bod nifer o grwpiau codi arian myfyrwyr mewn prifysgolion yn cael eu galw'n 'Karnival' neu 'Carnifal RAG'.

Mae'r term 'RAG' wedi'i gysylltu â'i hanes ac mae'r union ystyr yn dal i gael ei drafod heddiw. Mae rhai yn dadlau mai talfyriad o '*Raise and Give*' yw RAG', ar sail natur y gweithgareddau; dywed eraill bod 'RAG' yn tarddu o'r dyddiau cynnar pan fyddai myfyrwyr yn casglu arian a hen ddillad (*rags*) i'w rhoi i bobl lai ffodus yn y gymuned leol.

Yn union fel y mae amrywiaeth o ran yr enwau, er bod natur gyffredinol codi arian myfyrwyr yn parhau'n debyg ar draws prifysgolion a cholegau, mae'r gweithgareddau'n amrywio o un 'RAG' (neu 'rag', neu 'Carnifal') i'r llall. Mae gan rai grwpiau codi arian myfyrwyr hanes hir a bydd ganddynt nifer o ddigwyddiadau y maent y eu cynnal yn rheolaidd. Mae rhai ond yn dechrau sefydlu eu hunain a does ganddyn nhw ddim traddodiadau o'r fath; felly maent yn creu digwyddiadau codi arian newydd a fydd efallai, un diwrnod, yn diffinio eu hymdrechion codi arian.

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau codi arian myfyrwyr yn rhan o undeb eu myfyrwyr, naill ai fel cymdeithas neu fel 'gwasanaeth' yr undeb oherwydd maint yr ymgyrch a'r angen am fwy o gymorth staff. Weithiau, mae codi arian myfyrwyr yn weithgaredd ar wahân i undeb y myfyrwyr. Mae gan ychydig o undebau myfyrwyr aelod staff penodol ar gyfer rhoi cymorth i'r myfyrwyr hynny sy'n mynd ati i godi arian, ac mae gan y rhan fwyaf o undebau myfyrwyr AU rywun yn eu tîm Cyfleoedd Myfyrwyr sydd â chodi arian myfyrwyr yn rhan o'u swydd, fodd bynnag mewn rhai UM llai,

mae'r myfyrwyr yn gyfrifol am hunan-drefnu ac mae eu hymdrechion codi arian yn raddfa lai. Mewn Addysg Bellach, mae codi arian myfyrwyr fel rheol wedi'i drefnu o gwmpas achos neu ymgyrch benodol neu ddigwyddiad arbennig; diwrnodau cenedlaethol fel *Sport Relief* neu Plant mewn Angen, neu pan fo achos cenedlaethol neu ryngwladol penodol wedi symbylu myfyrwyr i godi arian er mwyn gallu cynnig cymorth.

Cymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr

Sefydlwyd y Gymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr yng Nghynhadledd RAG yn Durham yn 2011. Roedd myfyrwyr oedd yn frwd dros godi arian wedi bod yn dod at ei gilydd yng Nghynhadledd RAG ers blynyddoedd lawer ac yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol ffurfio pwyllgor cenedlaethol i'w cynrychioli, i weithio ar faterion codi arian myfyrwyr cenedlaethol, i gysylltu ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, ac i ddathlu codi arian.


Mae CGAGM yn derbyn cefnogaeth gan UCM ond mae'n fudiad annibynnol, gan weithio'n agos i gynorthwyo undebau myfyrwyr i hyrwyddo rhagoriaeth mewn codi arian myfyrwyr, ac i fod yn llais cenedlaethol ar gyfer RAG a myfyrwyr sy'n mynd ati i godi arian ar draws y wlad.

Dros y blynyddoedd, mae CGAGM wedi bod yn rhan o nifer o brosiectau a mentrau cyffrous. Roeddent yn rhan o dim sefydlu Dydd Mawrth Rhoddi yn y DU (diwrnod rhyngwladol rhoddi) ac maen nhw wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol i roi cymorth i fyfyrwyr godi arian yn lleol. Mae'r Gymdeithas hefyd wedi helpu pob pwyllgor Cynhadledd RAG i gynnal digwyddiad gwych, ac maent wedi cynnal oriau o gymorth un i un ar gyfer y rheiny sy'n mynd ati i godi arian.

Mae'r Canllaw hwn a'r Cyflwyniad i Godi Arian Myfyrwyr yn deillio o berthynas gadarnhaol rhwng UCM a'r Sefydliad Codi Arian ac oriau o waith caled gan amryw o bwyllgorau CGAGM.

Beth sy'n gwneud rhywun yn dda am godi arian?

Mae'r diagram isod wedi ei rannu gan y Sefydliad Codi Arian ac mae'n dangos yr hyn maen nhw'n ei ystyried yw rhywun da am godi arian. Er nad yw hyn i gyd yn gwbl addas ar gyfer codi arian myfyrwyr, mae'n declyn gwych i ganfod beth mae'ch grŵp codi arian myfyrwyr yn ei wneud yn dda, a beth yw'r meysydd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, efallai bod eich tîm codi arian yn wych am drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau (cynllunio a chynnal cymysgedd o weithgareddau codi arian) ond nid ydynt yn gwneud unrhyw beth i ddatblygu eu tîm o wirfoddolwyr nac yn eu gwobrwyo am gymryd rhan (ymdrechu i ddysgu a datblygu).



Y Gyfraith a Rheoliadau

Rheoleiddio codi arian

Mae codi arian yn cael ei reoleiddio - mae hynny'n golygu bod safonau i'w dilyn o ran y modd yr ydych yn gofyn am arian, ynghyd â system i ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd ynglŷn â chodi arian.

Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n gwybod beth yw'r rheolau er mwyn i chi wneud yn sicr eich bod bob amser yn codi arian yn y ffordd iawn.

Lle bynnag yr ydych yn y DU, mae yna sefydliad sy'n rheoleiddio 'elusennau' a sefydliad sy'n rheoleiddio 'codi arian'. Rheoleiddwyr elusennau

yn statudol - wedi'u sefydlu gan y Llywodraeth - tra bod rheoleiddwyr codi arian yn annibynnol.

Swyddogaeth rheoleiddwyr elusennau cenedlaethol yw cofrestru elusennau a sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn gywir ac yn gyfreithlon. Y cyrff yw: Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon (CCNI) a Swyddfa Rheoleidiwr Elusennau'r Alban (OSCR).

Mae rheoleiddwyr ar gyfer codi arian yn gyfrifol am osod safonau ar gyfer sut mae elusennau'n codi arian, derbyn cwynion gan aelodau'r cyhoedd, yn ogystal ag ymchwilio a dyfarnu unrhyw achosion o arfer gwael.

Y Cod Ymarfer ar gyfer Codi Arian

Mae'r holl reolau ar gyfer codi arian wedi'u nodi'n glir o fewn y Cod Ymarfer Codi Arian. Maent yn cynnwys y rheolau cyfreithiol y mae angen i chi wybod amdanynt a'u dilyn, yn ogystal â safonau ar gyfer codi arian sy'n cael eu gosod drwy reoleiddio codi arian. Disgwylir i bob codwr arian, boed yn gyflogedig gan yr elusen neu'n wirfoddolwr, ddilyn y safonau a ddisgrifir yn y Cod Ymarfer Codi Arian.

Egwyddorion ar gyfer codi arian rhagorol

Er bod rheolau manwl ar gyfer pob maes codi arian yn y Cod Ymarfer Codi Arian, mae'n bwysig cofio y dylai codi arian bob amser fod yn gyfreithiol, yn agored, yn onest, yn barchus ac yn atebol.

Mae codi arian ardderchog yn ymwneud â thrin y cyhoedd yn onest ac yn ddidwyll, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud dewis gwybodus am eu rhoi.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

Ymdrin â rhoddion yn ofalus a diogel

Meddylwch yn ofalus sut y byddwch chi'n trin arian. Mae trin cyfraniadau ariannol yn ofalus a diogel yn bwysig i amddiffyn eich gweithgareddau codi arian rhag twyll neu ddwyn, ac i sicrhau rhoddwyr bod eu rhoddion yn cael eu defnyddio at y diben y bwriadwyd nhw. Mae cyfreithiau penodol yn perthyn i sut i reoli casgliadau cyhoeddus, trafodion banc a'r llofnodwyr sy'n angenrheidiol i gael mynediad at gyfrifon banc elusen. Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ystyried gwariant yn ofalus, gan sicrhau bod costau codi arian yn gymesur.

Anrhydeddu eich addewidion i gefnogwyr

Os codir arian at ddiben penodol, rhaid ei ddefnyddio at y diben hwnnw. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi feddwl yn ofalus am yr hyn y byddwch yn ei wneud os byddwch yn codi mwy o arian na'r disgwyl neu os na fyddwch yn cyrraedd eich amcanion codi arian. Os ydych chi'n meddwl ei bod hi'n debygol y gallech fynd y tu hwnt i'ch targed, efallai y bydd angen i chi roi gwybod i roddwyr o'r dechrau sut y bydd unrhyw arian sydd dros ben yn cael ei ddefnyddio.

Cymryd cyfrifoldeb dros eich gweithgareddau codi arian

Os ydych wedi ystyried eich penderfyniadau codi arian yn ofalus, ni ddylech fynd yn rhy bell o'i le. Ar yr un pryd, gall camgymeriadau ddigwydd ac weithiau ni fydd prosiect codi arian, gweithgaredd neu ymgyrch yn mynd yn ôl y cynllun. Byddwch yn fodlon sefyll dros eich penderfyniadau codi arian; bod yn atebol, gan esbonio'ch proses ar gyfer gwneud penderfyniadau. Ac, os oes rhywbeth yn mynd o chwith neu mae cwyn yn cael ei gwneud, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymdrin ag unrhyw bryderon yn brydlon ac yn sensitif, gan ddysgu hynny allwch chi o'r broses.

Trin y cyhoedd yn deg a chyda pharch

Credwn y dylai codi arian bob amser fod yn brofiad cadarnhaol; gweithred sy'n galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu â'r achosion sy'n wirioneddol bwysig iddyn nhw a rhoi cefnogaeth iddynt. Felly, dylech bob amser drin y cyhoedd yn deg a chyda pharch, a gofaluwch byth beidio â rhoi pwysedd ar unrhyw un i roi, yn enwedig y rheiny y gellid eu hystyried i fod mewn amgylchiadau bregus.

Bod yn glir ac yn onest

P'un a ydych yn codi arian ar gyfer elusen neu beidio, bydd angen i chi ei gwneud yn glir pwy neu beth yr ydych yn codi arian ar ei gyfer. Dylech ddweud y gwir bob amser a gofalu na fyddwch yn gorbwysleisio unrhyw ffeithiau sy'n ymwneud â'r sawl sydd o bosibl yn mynd i elwa o'r fenter.

Cyfraith Elusennau ac undebau myfyrwyr

Mae'r rhan fwyaf o undebau myfyrwyr mawr yn elusennau, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddilyn Cyfraith Elusennau, sy'n arbennig o bwysig yn achos gweithgareddau codi arian myfyrwyr. Gall Cyfraith Elusennau swnio'n ddryslyd ac ychydig yn frawychus, ond mae yna rai meysydd allweddol y dylech chi eu hystyried. Os ydych chi'n fyfyrwr sydd am fynd ati i godi arian, does dim angen i chi fod yn arbenigwr ar gyfraith elusennau, a gall eich UM eich helpu os ydych chi'n ansicr am y gyfraith.

Mae gan bob Elusen ddiben elusennol. Mae hyn yn diffinio'r rheswm y maent yn bodoli ac mae'n caniatáu i'r elusen fod â chenhadaeth glir i helpu'r sawl y bwriadwyd eu helpu. Mae hefyd yn ddangosydd defnyddiol i'r cyhoedd a chyllidwyr er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o weithgareddau'r elusen a phwy sy'n elwa ohoni. Weithiau gelwir gweithio'r tu allan i'ch diben elusennol yn ultra-vires, sef Lladin am "y tu hwnt i'r pwerau".

Gall elusennau ymgymryd â nifer o weithgareddau, gan gynnwys ymgyrchu, masnachu, cynnal dadleuon neu weithdai a rhoi cymorth i gymdeithasau, ond mae'r rhain i gyd yn bethau sy'n cyfrannu at y diben, yn hytrach na bod yn ddiben ynddo'i hun. Ni chaiff elusennau gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd ddim o fudd i'w dibenion elusennol. Mae hyn oherwydd bod y rheiny sy'n elwa o'r elusen, yn ogystal â'r cyfranwyr (gan gynnwys y cyhoedd yn y rhan fwyaf o achosion) yn disgwyl y bydd yr elusen yn gweithio at y diben hwnnw.

O'r herwydd nid oes ganddynt y pŵer i weithio at unrhyw ddibenion eraill.

Mae Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn cydnabod undebau myfyrwyr fel mudiadau at ddibenion hyrwyddo addysg. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gwaith y mae undebau myfyrwyr yn ei wneud, a'r ffordd y maent yn defnyddio eu harian ac adnoddau eraill, fod o fudd i Addysg. Y bobl sy'n gallu elwa o weithgareddau undeb myfyrwyr, sef y rheiny y gellir gwario adnoddau arnynt, yw'r myfyrwyr sy'n astudio yn y coleg neu brifysgol sy'n bartner iddo. Mae'r myfyrwyr hyn yn elwa oherwydd eu bod yn astudio, nid am eu bod yn byw mewn ardal benodol neu eu bod o oedran penodol. Felly, y cysyniad allweddol i'w gofio yma yw mai diben undebau myfyrwyr yw hyrwyddo addysg eu myfyrwyr fel myfyrwyr. Gallai hyn gynnwys:

- gweithgareddau sy'n hybu eu datblygiad personol yn uniongyrchol;
- y rheiny sy'n gwella eu lles neu lesiant fel myfyrwyr;
- y rheiny sy'n cyfoethogi addysg myfyrwyr yn gyffredinol.

Pan fydd grwpiau myfyrwyr (e.e. RAG) yn codi arian ar gyfer elusen, rhaid gwneud yn glir i ble mae'r arian yn mynd. Mae digwyddiadau codi arian ychydig yn fwy cymhleth, yn enwedig lle mae undebau'n cynnal digwyddiadau fel ffrwd incwm ar gyfer eu diben elusennol.

- Ni all undeb myfyrwyr ddefnyddio digwyddiad a fyddai fel arfer yn codi arian ar gyfer ei amcanion allweddol i godi arian at ddiben arall. Felly, ni ellir defnyddio'r elw o ddisgo ar nos Fercher, sydd fel arfer yn codi arian ar gyfer gweithgareddau craidd yr undeb, ar gyfer cymdeithas 'Caru Cerddoriaeth Casáu Hiliaeth'.
- O bryd i'w gilydd, gallech ofyn am gyfraniad dewisol yn ychwanegol i bris mynediad noson sy'n bodoli eisoes - felly byddai £3 am noson gomedi yn mynd yn £4 gan gynnwys rhodd opsiynol.
- Myfyrwyr, nid undeb y myfyrwyr, dyllai fod yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n codi arian at achosion da y tu allan i'r amcanion elusennol.
- Ni ddylai undebau myfyrwyr a'u cymdeithasau warantu colledion yn sgil digwyddiadau a gweithgareddau sydd â'r nod o godi arian at ddibenion ac eithrio eu hamcanion penodol.
- Yn achos unrhyw weithgareddau, mae'r cwestiwn yn un o gymesuredd. Os yw undebau o hyd yn cynnal digwyddiadau elusennol a allai godi arian ar gyfer eu diben craidd er budd eraill, efallai y bydd yn rhaid iddynt ystyried pam nad ydynt yn gwneud y gorau o'u hincwm.

Yswiriant a chodi arian myfyrwyr

Disgrifir gweithgareddau codi arian weithiau fel rhywbeth sy'n "unigryw, yn hwyl ac yn aml yn anghyffredin", ac nid ydyn nhw bob amser yn ffitio'n daclus i ddisgwyliad cwmni yswiriant ar gyfer y risg y maent yn ei hyswirio, yn enwedig pan fo myfyrwyr yn cael eu hannog i fod yn arloesol wrth ddod o hyd i ffyrdd newydd o godi arian.

Yn achos yr undebau myfyrwyr hynny sydd wedi'u hyswirio gydag Endsleigh, bydd y cwmni yswiriant eisoes wedi hen arfer â'r math o weithgareddau y mae undebau myfyrwyr a'u grwpiau RAG neu grwpiau codi arian eraill yn eu trefnu, ond mae'n bwysig rhoi gwybod i yswirwyr am unrhyw weithgareddau newydd sydd ar raddfa fwy nag arfer, neu sy'n cynnwys elfen a allai fod yn beryglus. Enghraifft wych yw 'ffawd-heglu' sy'n cael ei esbonio'n nes ymlaen o dan 'prif weithgareddau codi arian myfyrwyr'.

Mae eich darparwydd yswiriant hefyd yn lle da i ofyn am gymorth gyda rheoli risg. Mae Endsleigh yn hapus i roi arweiniad ar asesiadau risg a gall hefyd rannu dogfennau defnyddiol gan undebau myfyrwyr eraill gyda'u caniatâd. Fel rhan o'ch trefniadau rheoli risg, efallai y byddwch yn penderfynu defnyddio darparwydd trydydd parti i drefnu'r heriau mwyaf, a fyddai'n lleihau'r lefel o gyfrifoldeb sydd ar undeb y myfyrwyr.



Cyfanswm Codi Arian Cenedlaethol

Yng Nghynhadledd RAG 2017 yn Southampton, pleidleisiodd myfyrwyr o blaid casglu cyfanswm Codi Arian Cenedlaethol, i ddathlu'r effaith enfawr y mae myfyrwyr sy'n codi arian yn ei gael yn y DU.

Y ffigwr hollbwysig yw faint sy'n cael ei roi i elusen, nid y cyfanswm a godwyd - gan fod costau digwyddiadau a staffio fel arfer yn cael eu tynnu o'r cyfanswm.

Mae'r cyfanswm hefyd yn cynnwys arian a gadwyd gan grwpiau / pwyllgorau heblaw grwpiau RAG o fewn sefydliad. Cyfrifir y cyfanswm ar sail blwyddyn academaidd (Gorffennaf i Orffennaf) gan fod myfyrwyr yn gyfrifol am godi arian yn ystod blwyddyn academaidd yn hytrach na blwyddyn ariannol. Bydd UCM a CGAGM yn cysylltu â myfyrwyr sy'n codi arian ac undebau myfyrwyr yn ystod tymor yr hydref i ofyn am eich cyfanswm.

Mae'r wybodaeth y gofynnwn amdano i gyfrifo'r cyfanswm isod:

| | |
|--|--|
| Undeb y Myfyrwyr | |
| Manylion cyswllt | |
| Cyfanswm a godwyd Gan RAG, grŵp codi arian myfyrwyr, cymdeithasau / clybiau chwaraeon eraill, digwyddiadau codi arian yr UM | |
| Cyfanswm a roddwyd i elusen Rhodd net | |
| Elusennau y rhoddwyd arian iddynt Os nad ydych chi'n gwybod, gadewch hwn yn wag | |
| Cyfanswm rhoddion all-lein Cyfanswm a godwyd mewn arian parod | |
| Cyfanswm rhoddion ar-lein Trwy lwyfan rhoddi ar-lein | |

Os ydych chi am gyflwyno'ch cyfanswm diweddaraf, anfonwch e-bost at y tîm yn UCM neu cysylltwch â CGAGM.

Prif weithgareddau codi arian myfyrwyr

Mae codi arian myfyrwyr yn amrywiol, wastad yn newid, yn gyffrous, ac yn hwyl.

Mae'r cyfleoedd ar gyfer syniadau codi arian creadigol yn ddi-ddiwedd, a'r unig ffactor sy'n uno'r holl fentrau codi arian gan fyfyrwyr yw eu bod nhw i gyd er achosion da. Mae Staff a Swyddogion Sabothol mewn undebau myfyrwyr, CGAGM, ac elusennau i gyd am helpu myfyrwyr i godi arian yn ddiogel, cael hwyl, a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn ag achosion da. Cyn belled â'ch bod chi'n gwneud hynny, rydych chi'n ei wneud yn iawn. Mae'n bwysig bod y rheiny sy'n codi arian yn ddiogel ym mhopeth maen nhw'n ei wneud,

ac rydym yn argymhell darllen y canllawiau diogelwch a diogelu gan y Sefydliad Codi Arian i'ch helpu yn hyn o beth: www.institute-of-fundraising.org.uk/guidance/safety-and-safeguarding-in-fundraising

Bydd gan lawer o grwpiau myfyrwyr sy'n mynd ati i godi arian ddigwyddiadau neu fathau o weithgaredd a gynhelir flwyddyn ar ôl blwyddyn, boed hynny'n sioe ffasiwn flynyddol, carnifal, canolbwytio ar yr 'her' o godi arian, neu fath arbennig o ddigwyddiad cymdeithasol.

Yma, byddwn yn esbonio rhai o'r gweithgareddau hyn sy'n ymddangos ar galendr blynyddol amryw o grwpiau sy'n codi arian:

Ffawdheglu

Mae *Lost* yn ddigwyddiad ffawdheglu elusennol sy'n cael ei redeg fwy a mwy o gymdeithasau RAG ledled y wlad bob blwyddyn. Mae *Lost* yn ras o fan gollwng dirgel yn ôl i'ch campws / UM, gyda thimau yn aml yn cael rhestr o heriau i'w cwblhau ar eu taith yn ôl, a all olygu amser yn cael ei dynnu oddi ar eu cyfanswm, gan gynyddu eu siawns o ennill. Mae *Jailbreak* yn gweithio'n groes i *Lost*, gyda'r rheiny sy'n codi arian yn cychwyn yn eu UM / sefydliad ac yn gorfod ffawdheglu i fynd mor bell i ffwrdd â phosib. Mae'r ddau weithgaredd yn wych am adeiladu brand eich grŵp codi arian, gan eu bod fel arfer yn cael eu gweld fel uchafbwynt y flwyddyn.

'Cyrchoedd'

Mae Cyrchoedd RAG yn aml ar ffurf casgliadau bwced ar y campws neu yn y gymuned leol. Nid yw Cyrchoedd at ddant pawb ond gall unrhyw un gymryd rhan,

ac mae'n ffordd wych o wneud arian, ond mae hefyd yn bwysig eich bod chi'n

mwynhau eich hun!

Mae cydweithio â chyfeillion a gwisgo dillad gwirion yn helpu, ond mae bod â chymhelliad i chi a'ch cyd-gasglwyr; fel dathliad ar ôl diwrnod caled o gasglu, neu ei wneud yn gystadleuaeth, yn gallu eich ysgogi chi ac eraill i wneud y cyrch yn fwy pleserus, gyda'r gobaith o godi mwy o arian! Mae rhai pethau allweddol y dylech fod yn ymwybodol ohonynt wrth baratoi ar gyfer Cyrchoedd RAG, megis cael gafael ar drwyddedau a sicrhau bod yr elusen a ddewiswyd yn ymwybodol o'r casgliad. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â chasgliadau bwced i'w gweld ar wefan CGAGM

Heriau

Un o'r prif ddulliau a ddefnyddir gan fyfyrwyr i godi llawer o arian yw heriau wedi'u trefnu, fel dringo Kilimanjaro, beicio o Lundain i Baris neu gerdded Wal Fawr Tsieina. Mae myfyrwyr unigol yn cytuno i wneud y rhain a rhaid iddynt godi swm penodol o arian. Yna maent yn mynd at i gymryd rhan yn yr her ac mae eu costau'n cael eu talu allan o'r arian a gaiff ei godi. Trefnir y rhan fwyaf o hyn gan yr elusen rydych chi'n gweithio gyda hi neu ddarparydd her ar wahân; mae tri neu bedwar ohonynt yn gweithio'n benodol gyda myfyrwyr.

Os ydych chi'n ystyried gwneud y math hwn o godi arian, yna gwnewch yn siŵr eich bod yn gweithio gydag elusen a / neu ddarparydd her sydd â phrofiad yn y maes hwn, a'u bod yn gallu dangos eu manylion yswiriant i chi.

Wythnos RAG

Roedd y rhain yn rhan o'r rhan fwyaf o galendrau codi arian myfyrwyr yn y 1990au a degawd cyntaf y ganrif hon, ond maent bellach yn llai cyffredin, gydag ymgyrchwyr yn canfod nad ydynt yn fodd o godi cymaint o arian ag roeddent yn y gorffennol. Mae undebau myfyrwyr yn cynnal nifer o ddigwyddiadau, ac efallai bod Wythnos RAG yn ormod ymysg yr holl weithgareddau eraill hyn.

Mewn rhai UMau, mae Wythnos RAG yn dal i weithio, ac mae'n ddathliad 5-7 diwrnod o godi arian gan fyfyrwyr, gyda digwyddiadau bob dydd a chyfleoedd i gymdeithasau i'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y digwyddiadau hyn.

Os yw Wythnos RAG yn rhywbeth yr hoffech ei drefnu, rydym yn eich annog i feddwl am y canlynol:

- A allech chi fod â thema ar gyfer yr wythnos sy'n dod â'r holl weithgareddau at ei gilydd?
- Efallai y gellid cysylltu'r thema hon â rhywbeth arall sy'n digwydd yn eich prifysgol / coleg? A oes etholiadau ar y gweill?
Ydy hi'n Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli?
- Pa fath o weithgareddau codi arian sydd o ddiddordeb i'r myfyrwyr yn eich prifysgol / coleg? Beth sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol? Ceisiwch apelio at eu diddordebau;
- peidiwch â cheisio gwneud gormod - mae cynnal tri neu bedwar o weithgareddau o ansawdd da yn well na chynnal 10 sydd wedi'u trefnu'n wael;
- Defnyddiwch wefan CGAGM a chyfryngau cymdeithasol CGAGM i gyrraedd grwpiau codi arian eraill er mwyn darganfod beth sydd wedi gweithio yn eu Wythnosau RAG nhw.

Mae mwy o wybodaeth am y gweithgareddau hyn i gyd i'w gweld ar wefan CGAGM.



Hyfforddi a datblygu ar gyfer codi arian

Cynhadledd Genedlaethol Codi Arian Myfyrwyr

Cyfeiriwyd at y digwyddiad hwn yn y gorfffenol fel Cynhadledd RAG; dyma'r prif ddigwyddiad ar gyfer hyfforddiant, rhwydweithio, datblygu a dysgu cyffredinol ynghylch codi arian myfyrwyr. Bob blwyddyn fe'i cynhelir gan grŵp codi arian / RAG gwahanol (gan weithio'n glòs gyda'u hundeb myfyrwyr fel arfer) a phenderfynir ar y lleoliad yn y Gynhadledd y flwyddyn flaenorol.

Nid digwyddiad ar gyfer y rheiny sy'n codi arian yn unig mo hwn; mae hefyd yn lle gwych i staff a swyddogion sabothol UMaU sy'n cynorthwyo â chodi arian myfyrwyr gyfarfod a thrafod datblygiadau. Mae nifer o staff elusennau yn ymuno â nhw i gyflwyno eu helusennau yn y Ffair Elusennau flynyddol yn ogystal â chynnig cymorth drwy gynnal gweithdai.

Dechreuodd llawer o'r staff sy'n gweithio mewn elusennau eu gyrfaeoddedd ym maes codi arian myfyrwyr, felly maent yn angerddol ynglŷn â chynnig cymorth, ac mae ganddyn nhw wybodaeth eang am hanes RAG a myfyrwyr yn mynd ati i godi arian! Mae myfyrwyr sy'n codi arian wastad wedi ymgynnull yn flynyddol, ac er bod fformat, thema a mynychwyr Cynhadledd RAG yn newid o un flwyddyn i'r nesaf, mae traddodiad pwysig yn perthyn i'r digwyddiad, rhywbeth y mae myfyrwyr sy'n mynd ati i godi arian yn arbennig o falch ohono.

Gwefan CGAGM

Ar www.nasfa.org.uk fe welwch wybodaeth am CGAGM, 'map RAG' ar-lein sy'n dangos yr holl grwpiau codi arian myfyrwyr yn y DU, ac mae yna gyfres o ganllawiau. Y rhain yw:

- sut i ddechrau RAG;
- casgliadau bwced i ddechreuwyd;
- y tu hwnt i arwerthiant teisennau (syniadau am ddigwyddiadau);
- sut i ffawdheglu.

Mae CGAGM hefyd yn trefnu cyfarfodydd rhanbarthol yn ystod y flwyddyn y gallwch chi gymryd rhan ynddyn nhw. Cysylltwch â nhw am fwy o wybodaeth:

Mae gan CGAGM dudalen Facebook weithredol ar gyfer pob myfyriwr sy'n ymwneud â chodi arian, yn ogystal â grwpiau Facebook rhanbarthol. Mae'r manau hyn yn wych ar gyfer rhwydweithio gyda myfyrwyr eraill o bob cwr o'r wlad sy'n ymwneud â chodi arian, felly ymunwch â nhw, gofynnwch gwestiynau a darlennwch yr hyn a drafodwyd o'r blaen. Mae elusennau hefyd yn ymuno yn y trafodaethau, gan ddarparu sylwadau defnyddiol; yn aml maent yn hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli, eu hinterniaethau a'u swyddi gwag ar y tudalennau hyn.

Aelodaeth y Sefydliad Codi Arian

Ar hyn o bryd mae tri math o aelodaeth o'r Sefydliad Codi Arian: cefnogwyr unigol, sefydliadol a chorfforaethol.

Aelodaeth Gyswilt Unigol yw'r un sy'n gweddu orau ar gyfer myfyrwyr sy'n ymwneud â chodi arian.

Y tâl aelodaeth blynyddol yw £104. Os ydych chi'n dewis talu trwy ddebyd uniongyrchol (yn fisol neu'n chwarterol), rydym hefyd yn ildio'r ffi ymuno o £25. Mae aelodaeth yn ddibynnol ar unigolyn yn darparu geirada ac yn cytuno i gydymffurfio â Chod Ymddygiad y SCA.

Ymhlith y manteision niferus a ddaw yn sgîl Aelodaeth Unigol mae: disgownt ar bris holl hyfforddiant a chymwysterau SCA; tanysgrifiad am ddim i'r *Cylchgrawn Codi Arian* (gwerth £132 y flwyddyn); cynllun arian-yn-ôl a disgownt drwy *IoF Privilege*; a mynediad i rwydwaith o ymgyrchwyr ledled y DU sydd â phrofiad eang o godi arian.

Mae mwy o fanylion ar gael yn:

www.institute-of-fundraising.org.uk/membership/

Hyfforddiant

Mae'r Sefydliad Codi Arian yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Mae ein cyrsiau Cyflwyniad i Godi Arian un-dydd yn cynnig arweiniad ymarferol i'r proffesiwn, gan ymdrin ag egwyddorion sylfaenol ac arfer gorau. Byddwch hefyd yn dysgu sut i sicrhau bod eich gweithgareddau codi arian yn gyfreithiol ac yn foeseogol.

Mae yna hefyd gymwysterau proffesiynol mewn codi arian y gellir eu hennill pan fyddwch chi wedi mynd ymhellach yn eich gyrfa codi arian. Mae'r Dystysgrif, y Diploma a'r Diploma Uwch Rhyngwladol yn gymwysterau a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol, a byddant yn rhoi cydnabyddiaeth broffesiynol i chi, dealltwriaeth gynyddol a gwell rhagolygon o ran canfod gwaith.

Gellir gweld yr hyfforddiant i gyd yma:

www.institute-of-fundraising.org.uk/events-and-training/

Cynhadledd

Bob blwyddyn, mae'r Sefydliad Codi Arian yn cynnal eu Cynhadledd Codi Arian yn Llundain, ym mis Gorffennaf. Dyma'r digwyddiad mwyaf ar gyfer codwyr arian proffesiynol yn Ewrop. Mae'r SCA hefyd yn cynnal Cynhadledd Codi Arian Genedlaethol yr Alban bob mis Hydref, yn ogystal â chynadleddau mwy penodol gydol y flwyddyn megis Cynhadledd Codi Arian ar gyfer Digwyddiadau.

Gellir gweld y digwyddiadau i gyd yma:

www.institute-of-fundraising.org.uk/events-and-training/iofevents/

Cynhadledd Codi Arian: www.fundraisingconvention.uk/

Cynhadledd Codi Arian yr Alban:

www.scottishfundraisingconference.org.uk/home

Y tu hwnt i godi arian fel myfyrwyr - Gyrfaoedd yn y sector elusennol

Mae codi arian ar gyfer elusennau yn yrfa gyffrous, gwerth chweil a phroffesiynol lle mae gennych chi'r cyfle i helpu creu byd gwell. Mae rolau proffesiynol cyflogedig yn hanfodol i gynyddu cefnogaeth ar gyfer achosion pwysig a sicrhau'r defnydd gorau posibl o arian a gaiff ei godi.

Codi arian wyneb yn wyneb sy'n arferol pan fo myfyrwyr yn mynd ati i godi arian, ond mae swyddi parhaol yn y maes yn mynd y tu hwnt i ofyn i roddwyr am arian -

meddylwch am yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer creu ymgyrch, ffurfio partneriaethau corfforaethol, negodi rhoddion mawr, rheoli cyfathrebu a threfnu cronfeydd data - ac a allai eich sgiliau fod yn rhai y gellid eu haddasu. Mae'r sector yn chwilio am bobl sy'n greadigol a mentrus; sy'n meddu ar sgiliau cyfathrebu, ymchwil a rheoli prosiect cryf; sy'n gallu cyrraedd targedau ariannol a gweithio o fewn terfynau amser; pobl sy'n angerddol am yr achosion y maent yn eu cynrychioli.

Gall codwyr arian proffesiynol ddatblygu eu harbenigedd yn y maes drwy ennill cymhwyster codi arian neu wella eu sgiliau gyda chwrs hyfforddi arbenigol gyda chyrrff aelodaeth proffesiynol sy'n benodol i'r diwydiant, gan gynnwys y Sefydliad Codi Arian.


Dod o hyd i rôl i chi

Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn dilyn gyrfa yn y Sector Elusennau, mae yna nifer o leodd i chwilio am gyfleoedd.

Swydd Elusennol: www.charityjob.co.uk/

Am yrfaoedd mewn undebau myfyrwyr ac UCM, gallwch fwrw golwg ar su.careers

Os ydych chi eisiau swydd gydag elusen yn yr Alban, ewch i goodmoves.org.uk sef gwefan swyddi yn yr Alban sy'n cael ei redeg gan CMGA (Cyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban) ac os ydych chi'n cofrestru ar wefan y Sefydliad Codi Arian, gallwch ofyn am wybodaeth gyfoes ynghylch swyddi sy'n berthnasol i chi.



Yng Nghymru, mae GCGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) yn hyrwyddo www.recruit3.org.uk/ swyddi yn y Trydydd Sector.

Yn olaf, yng Ngogledd Iwerddon, mae www.communityni.org/job Dyma'r lle gorau i ddechrau.

Wrth gwrs, gallwch chi bob amser gysylltu â'r elusennau yr ydych chi wedi gweithio i godi arian ar eu cyfer yn ystod eich amser fel myfyriwr. Hyd yn oed os nad oes swyddi ar gael ganddynt, efallai y byddant yn gwybod am elusennau a all gynnig cyfleoedd o'r fath. Byddant hefyd yn cynnig cyngor ac weithiau'n darparu gerida ar gyfer myfyrwyr sydd wedi bod yn codi arian ar eu cyfer nhw.

Cofnodi'r hyn rydych chi wedi'i wneud

Mae'n syniad da gwneud nodyn o'r pethau rydych chi wedi'u gwneud wrth wirfoddoli'r codi arian (yn ogystal ag unrhyw wirfoddoli arall rydych chi wedi'i wneud). Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws cofio'r holl sgiliau a phrofiadau rydych chi wedi'u hennill wrth greu eich CV neu ysgrifennu ceisiadau am swydd. Cofiwch nodi:

- beth wnaethoch chi;
- pryd gwnaethoch chi hyn;
- pam wnaethoch chi hyn (pa effaith oeddech chi'n ceisio ei chreu);
- unrhyw rifau / ystadegau (e.e. faint o bobl a ddaeth i'ch digwyddiad, faint o arian wnaethoch chi ei godi, faint o bobl wnaethoch chi eu rheoli).

Mae'n debygol y bydd eich undeb myfyrwyr a / neu sefydliad yn cynnig rhyw fath o gyfleoedd hyfforddi a datblygu, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio ar y rhai cywir i chi, a gwnewchd nodyn o'r hyfforddiant yr ydych chi wedi'i gwblhau hefyd.

Cysylltiadau

UCM

Gwefan: www.nusconnect.org.uk

E-bost: studentopportunities@nus.org.uk

Twitter: [@nusconnect](https://twitter.com/nusconnect)

Facebook: [@nationalunionofstudents](https://www.facebook.com/nationalunionofstudents)

Cymdeithas Godi Arian Genedlaethol y Myfyrwyr

Gwefan: www.nasfa.org.uk

E-bost:

nationalsfa@gmail.com

Twitter: [@nationalsfa](https://twitter.com/nationalsfa)

Facebook: [en-](https://www.facebook.com/en-gb.facebook.com/NationalStudentFundraisingAssociation/)

[gb.facebook.com/NationalStudentFundraisingAssociation/](https://www.facebook.com/NationalStudentFundraisingAssociation/)



Sefydliad Codi Arian

Gwefan www.institute-of-fundraising.org.uk/home/

Email: info@institute-of-fundraising.org.uk

Twitter: [@loFwweets](https://twitter.com/loFwweets)

Facebook: www.facebook.com/instituteoffundraising





Diolch

Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan UCM fel rhan o'n gwaith i roi cymorth i undebau myfyrwyr a myfyrwyr mewn Cyfleoedd Myfyrwyr. Fodd bynnag, heb gyfraniadau hael a defnyddiol gan nifer o bobl a sefydliadau, ni fyddem wedi gallu ei gynhyrchu.

Diolch i CGAGM am weithio ar hyn dros nifer o flynyddoedd, am eich cefnogaeth angerddol a chariad didwyll at godi arian myfyrwyr.

Diolch i'r Sefydliad Codi Arian am ddarparu cyngor hanfodol, ac am gynnig cyfraniadau defnyddiol trwy gydol y broses.

Diolch i Endsleigh am oruchwylio'r canllaw hwn a sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag anghenion yswiriant.

Diolch i'r elusennau a gyfarfu ag UCM i drafod hyn, am rannu eich syniadau a bod mor angerddol ynglŷn â'r prosiect hwn ac am eich holl waith gyda myfyrwyr!

Diolch i'r myfyrwyr a'r staff a fu'n ymwneud â grwpiau ffocws gan holi cwestiynau i ni eu hateb, ac am gyfrannu cymaint o syniadau gwych ar gyfer gwneud hwn yn adnodd defnyddiol i chi!



Macadam House
275 Gray's Inn
Road Llundain
WC1X 8QB

t 0845 5210 262

www.nus.org.uk



national union of **students**